**HYSBYSIAD CYHOEDDUS**
**CYNGOR SIR PENFRO**
**SIR BENFRO (SUL Y COFIO) (FFYRDD AMRYWIOL)**
**GORCHYMYN (CYFYNGIAD TRAFFIG DROS DRO) 2021**

---

**HYSBYSIR** trwy hyn bod Cyngor Sir Penfro wedi gwneud y Gorchymyn hwn o dan Adran 21 o Ddeddf Cymalau Heddlu Tref 1847, er mwyn atal rhwystrau ayb.

**GAN Y BYDD** y strydoedd a restrir yn yr atodlen yn orlawn ac yn debyg o gael eu rhwystro oherwydd Gwasanaethau Sul y Cofio mewn amrywiol leoliadau yn ystod oriau penodol ar ddydd Sul, 14 Tachwedd 2021.

Mae Cyngor Sir Penfro yn unol â'r grymoedd a roddwyd iddo dan adran 21 Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847 yn **GORCHYMYN DRWY HYN** ac yn rhoi cyfarwyddyd, at y diben o atal rhwystr ar y Stryd ddywededig ar y dyddiau hynny y dylid cadw at y rheoliadau canlynol:-

1. Yn amodol ar y darpariaethau hynny a geir yn erthygl 2 bydd y strydoedd a nodwyd yn Atodlen yr hysbysiad hwn ar gau i gerbydau ar **Ddydd Sul 14 Tachwedd, 2021** tra bydd gwasanaethau a gorymdeithiau sy'n gysylltiedig â Sul y Cofio yn digwydd ar neu gerllaw priffordd gyhoeddus.

2. Nid oes dim yn erthygl 1 yn berthnasol i unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, mynediad trigolion i eiddo o fewn yr ardal gaeedig, neu unrhyw beth a wneir gyda chaniatâd neu o dan gyfarwyddyd Swyddog yr Heddlu.

3. Bydd y cyfyngiadau a osodwyd gan y Gorchymyn hwn ond yn berthnasol yn ystod y cyfnod ac i'r graddau y nodwyd gan Swyddog yr Heddlu.

Dyddiedig 1 Tachwedd 2021

Darren Thomas
Pennaeth Isadeiledd
Neuadd y Sir
Hwlffordd

**ATODLEN**

| **Tref** | **Ffyrdd yr effeithir arnynt** |
|---|---|
| Hwlffordd | Picton/Victoria Place, Stryd Quay |
| Penfro | Y Stryd Fawr, Westgate Hill, Stryd Northgate |
| Doc Penfro | Bush Street, Stryd yr Eglwys, Stryd Lewis |
| Arberth | Spring Gardens, Stryd Sant Iago, Y Stryd Fawr, Sgwâr y Farchnad, Stryd yr Eglwys |
| Saundersfoot | Y B4316 Saundersfoot i Pentlepoir (yn ardal Eglwys St Issell), C3031 Eglwys St Issell i stryd Pont Wiseman |
| Dinbych-y-pysgod | St Florence Parade, Rhodfa'r De, Ffordd Trafalgar, Stryd y Llew Gwyn, Y Stryd Fawr, Stryd Southcliffe |
| Tyddewi | Y Stryd Fawr, Sgwâr y Groes, Y Pebbles |
| Neyland | Y Stryd Fawr, Riverside Avenue, Ffordd Kensington, Stryd Ioan |
| Johnston | Ffordd yr Eglwys |
| Wdig | Ffordd yr Eglwys, Church Terace, Main Street |